

Rhan 1

Nod rhan 1 o'r aseiniad hwn yw gwerthuso yn feirniadol beth yw arweinyddiaeth gynhwysol mewn lleoliadau Blynyddoedd Cynnar, a thrafod cyfleoedd a rhwystrau sy'n herio rôl arweinydd cynhwysol, a hefyd yr effeithiau y gallai hyn cael ar ymarferwyr, y gymuned, plant a theuluoedd.

Yn ôl Nutbrown (dim dyddiad) mae bod yn gynhwysol yn meddwl craffu ar yr arferion, agweddau, polisïau a gwerthoedd sy'n gwneud cymunedau blynyddoedd cynnar beth maen nhw. Wrth wneud hwn mae'n pawb yn teimlo'n ddiogel, yn gyfforddus a hefyd yn cael eu croesawu. Mae'n bwysig bod plant yn teimlo eu bod yn perthyn, ac mae eu hunigoliaeth a'u treftadaeth yn cael eu deall a'u parchu. Yn ôl Agbenyega a Klibthong (2022) mae astudiaethau yn dangos bod ffocws mawr ar gynhwysiant yn gwella dysgu ac addysgu ar gyfer pob plentyn ifanc, yn enwedig pan fydd arweinwyr yn ymgysylltu a chymuned mewn proses barhaus o wneud penderfyniadau cydweithredol.

Yn ôl Ferdman (2020) diffiniad o arweinyddiaeth gynhwysol yw dod a chynhwysiant yn fyw, fel yn y gymuned, grŵp o weithwyr, systemau sefydliadau neu berthynas ryngbersonol. Mae arweinyddiaeth gynhwysol hefyd yn cynnwys meithrin tegwch a thegwch ar draws hunaniaethau lluosog. Mae arweinwyr cynhwysol yn unigolion sy'n ymwybodol o'u rhagfarnau eu hunain ac yn mynd ati i chwilio am ac ystyried gwahanol safbwyntiau i lywio eu penderfyniadau a chydweithio'n fwy effeithiol ag eraill (Center for creative leadership, 2023). Yn ôl Betz (2023) Mae arweinyddiaeth gynhwysol yn sicrhau bod llais pawb yn cael ei glywed, ei gymhwyso a'i ddiogelu yn y gweithle, waeth beth fo'u hunaniaeth bersonol neu gefndir. Mae deall beth yw bod yn gynhwysol yw deall yr unigolion, diwylliannau, teuluoedd, lleoliadau, cymdeithasau ac ymarferwyr, a gweithio'n barchus i ddileu arferion gwahaniaethol (Nutbrown, dim dyddiad).

Yn ôl Childhood Education International (2021) mae'n hanfodol i ddeall addysg gynhwysol a phwysigrwydd tegwch. Mae'r termau 'cydraddoldeb' a 'tegwch' yn wahanol ac wedi cael canlyniadau gwahanol o ran, cyfranogiad, canlyniadau dysgu a mynediad. Mae tegwch yn cyfeirio at sicrhau bod pob plentyn yn cael y cymorth priodol sydd ei angen i lwyddo a dysgu. Mae tegwch mewn addysg yn ei gwneud yn ofynnol i arweinwyr ddeall yr heriau a rhwystrau unigryw sy'n wynebu unigolion a

theuluoedd a dod o hyd iddynt atebion i oresgyn y rhwystrau hynny, tra bod cydraddoldeb yn cyfeirio at drin pawb yn union yr un ffordd.

Mae'r senario a drafodwyd yn berthnasol i blentyn o enw Osian sydd yn pum mlwydd oed. Mae Osian yn byw gyda'i thad sydd gyda chyfrifoldeb rhiant i gyd. Mae tad Osian wedi goresgyn caethiwed i gyffuriau ac wedi cael ei asesu yn un sy'n gallu gofalu am Osian ar ei ben ei hun. Mae Osian yn gwneud yn dda yn ysgol, fodd bynnag nid yw yn cymysgu yn dda gyda phlant arall. Mae Osian yn blentyn swil sydd yn mwynhau chwarae ar ei ben ei hun ac mae ei thad yn berson swil hefyd. Dydy tad Osian ddim yn ymgysylltu gyda'r rheini arall pan mae'n amser casglu Osian o'r ysgol, ond nid yw'r rheini arall yn gwahodd i ymuno a'u trafodaethau. Mae tad Osian dim ond yn aros am gyfnod byr i siarad os bydd angen, a ddim yn mynychu nosweithiau rhieni. Does dim llawer o ffrindiau gydag Osian tu fas o ysgol. Hefyd mae dad a mam Osian wedi gwahanu ac nad yw Osian yn gyswllt gyda'i fam.

Mae llawer o weithwyr aml-asiantaeth yn gweithio gydag Osian a'i thad i helpu cefnogi lles Osian a helpu gyda magu ac adferiad y tad. Mae gweithio aml-asiantaeth yn allweddol i ddiogelu ac amddiffyn plant yn effeithiol (NSPCC, 2023). Mae gan Osian gweithiwr cymdeithasol sydd yn asesu risg a darparu cefnogaeth i dad Osian. Mae gweithwyr cymdeithasol yn chwarae rhan fawr yn fywyd Osian a'i thad i wella eu bywydau (Gov.uk, 2023). Fodd bynnag yn ôl Mullins (2021) gall gweithwyr cymdeithasol ysgogi teimladau o ofn i rai pobl. Mae stigma yn bodoli wrth ystyried cael unrhyw asiantaeth allanol yn ymwneud yn fywydau teuluol preifat ac mae yna ymdeimlad o gywilydd, oherwydd diffyg trafodaeth am beth mae gweithwyr cymdeithasol yn gwneud. Yn ôl UNICEF (dim dyddiad) erthygl 9 ni ddylai plentyn gael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni, oni bai os mae yn eu budd gorau. Mae plant sydd gyda rhieni sydd wedi gwahanu gyda'r hawl i gadw mewn cysylltiad â'r ddau riant, oni bai y gallai hyn achosi niwed iddynt, felly, oherwydd adferiad y tad, mae Osian yn gallu aros gyda'i dad.

Mae gan ymarferwyr hefyd cyfrifoldeb i sicrhau bod lles Osian yn iawn a sicrhau bod Osian yn teimlo'n ddiogel o fewn yr amgylchedd corfforol ac emosiynol (Inness, 2015). Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn defnyddio iaith gynhwysol o fewn yr ystafell ddysgu. Mae'n hanfodol i greu ystafell ddysgu lle mae'r holl fyfyrwyr a'u rhieni yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u deall. Mae hefyd yn hanfodol cael llyfrau yn yr ystafell dosbarth sydd yn esbonio bod gwahanol fathau o deuluoedd (Bower,

2021). Yn ôl Patel (2018) mae llyfrau sydd yn esbonio teuluoedd gwahanol yn helpu Osian i weld ei hunain yn y stori, bydd Osian yn dysgu am yr amrywiaeth o deuluoedd a phob math o gariad sydd yn cael ei rannu o fewn uned deuluol.

Yn ôl y senario mae Osian yn byw gyda dad yn unig ac nad yw yn cael cyswllt gyda'i mam. Yn ôl NSPCC (dim dyddiad) Yn gyffredinol, mae gan famau gyfrifoldeb rhiant yn awtomatig am eu plentyn o enedigaeth. Yn ôl Casey (2022) mae rhan fwyaf o blant sydd yn dod o'r cartrefi un rhiant yn tyfu i fod yn oedolion sydd wedi addasu'n dda. Fodd bynnag mae plant o deuluoedd un rhiant yn fwy tebygol o wynebu heriau iechyd emosiynol ac ymddygiadol, fel ymddygiad ymosodol neu gymryd rhan mewn ymddygiadau risg uchel, o'u cymharu â phlant sydd yn dod o gartrefi dau riant. Yn ôl Lee a Bax (2000) ar ôl i rieni gwahanu mae'n gallu effeithio plant a bydd yn mynd yn ôl, yn dangos pryder a hefyd symptomau iselder. Mae'n hefyd yn gallu effeithio problemau yn yr ysgol a phroblemau perthnasoedd cymdeithasol. Mae plant yn gallu teimlo colled pan mae'r rheini yn gwahanu, efallai hyn sydd yn gwneud i Osian i fod yn swil a ddim cymysgu gyda phlant arall (Royal College of Psychiatrists, 2018).

Mae senario hefyd cyfleu bod Osian yn blentyn sydd yn swil ac nad yw yn cymysgu yn dda gyda phlant arall. Mae dysgu sut i feithrin perthynas a phlant arall ac ymarferwyr yn rhan bwysig yn ddatblygiad plentyn. Trwy gymdeithasu a chwarae gyda phlant arall, bydd yn helpu Osian i adeiladau iaith a dysgu sut i uniaethu gyda phlant arall (Cowley, dim dyddiad). Mae Gibbs (2021) yn cytuno bod sgiliau cyfeillgarwch a cymdeithasol yn sylfaenol i Osian defnyddio wrth dyfu ac archwilio'r byd. Mae'r sgiliau hyn yn sgiliau bywyd gwerthfawr sydd yn helpu Osian i integreiddio i gymdeithas, adeiladu hunan hyder a hefyd hyd yn oed darparu mannau iach ar gyfer mynegi emosiynau. I helpu gyda sgiliau cymdeithasu Osian gall ymarferwyr yn yr ysgol ymarfer trwy chwarae rôl, adrodd straeon a phypedau a hefyd mae adrodd beth mae'r ymarferwr yn dweud yn helpu i Osian datblygu ei iaith a dod yn gyfforddus i siarad gyda phlant a staff arall (Action For Children, dim dyddiad). Fodd bynnag pan mae plentyn yn chwarae ar ei ben ei hun mae'n gwella sgiliau datrys problemau, ac addysgu amynedd a gwytnwch (Pennsylvanais's Promise for Children, dim dyddiad).

Yn y senario mae'n dweud nad yw'r rheini arall yn gwahodd dad i ymuno a'u trafodaethau. Gallai hyn fod oherwydd stigma o fod yn rhiant ifanc sengl, yn gaeth i adferiad ac o statws economaidd cymdeithasol isel. Yn ôl Bardsley (2013) mae

stereoteipio hyn fod yn hynod niweidiol i fenywod ifanc neu ddynion sydd yn cymryd eu camau cyntaf i fod yn rhiant. I rieni sydd yn sengl hwn yw'r stigma mwyaf a heriol maent yn wynebu. Mae'r stigma yn golygu yn aml iawn mae rhieni sengl yn dioddef o hunan barch isel a'u bod y cael trafferth gyda gwaith ac addysg. Yn ôl Weed a Nicholson (2014) mae'r stigma o dadau ifanc yn cael eu gwerthuso'n fwy negyddol na mamau. Mae tadau yn cael peintio fel bod yn absennol, yn droseddol, yn dreisgar ac wedi'u hallgau'n gymdeithaso, tra bod mamau yn cael eu darlunio yn unig, tlawd ac agored i niwed. Mae stereoteipiau negyddol o amgylch tadau wedi cael eu llunio i anwybyddu eu hawydd i fod yn rheini da a bod yn fywydau eu plant. Mae Berger a Langton (2011) hefyd yn dweud bod gan dadau hyn mwy breintiedig buddsoddi mewn eu plant na thadau difreintiedig, oherwydd mae'n debygol bod lai adnoddau ariannol i fagu plant a lefelau uwch o ymddygiad cymdeithasol, emosiynol anawsterau.

Mae'r senario yn cyfleu bod tad Osian dim ond yn aros am gyfnod byr i siarad os bydd angen, a ddim yn mynychu nosweithiau rhieni. Yn ôl Gov.uk (dim dyddiad) mae ymchwil yn dangos mai cynnwys y rheini a gofalwyr yn dysgu eu plant yw'r un o'r ffactorau pwysicaf i sicrhau a galluogi rhai plant i wneud yn dda waeth beth yw eu cefndir. Mae gweithio mewn partneriaeth gyda rheini a gofalwyr yn hanfodol yn gyfnod blynyddoedd cynnar. I helpu tad Osian dod y cyfforddus gyda staff yn yr ysgol mae dysgu am ddiwylliant teuluol mha chymunedol a hefyd hanes personol yn ffordd dda i ddechrau'r perthynas rhwng dad ac ymarferwyr. Mae'n hanfodol bod yr ymarferwyr yn ystyried sut i oresgyn unrhyw rwystrau fel gwahanu, iaith, diwylliant a gwerthoedd gwahanol. Yn ôl Estyn (2020) mae sicrhau bod staff yn cael yr hyfforddiant i sicrhau cysondeb yn strategaethau a dulliau sydd yn gwella dysgu proffesiynol.

Fodd bynnag efallai bod teuluoedd wedi cael profiadau gwahanol o gymorth gan ystod o weithwyr proffesiynol, yn amrywio o bositif cefnogol iawn i ansawdd gwael ac anodd ei reoli. Mae'n gallu gadael teuluoedd yn teimlo heb gefnogaeth a gall gael effaith ddofn ar ansawdd bywyd y teulu a theimladau o unigedd. Mae bod yn ymwybodol o'r anawsterau y mae teuluoedd yn eu profi wrth geisio cael cymorth yn allweddol i empathi â'u hamgylchiadau a gwneud addasiadau i'r ffordd yr ydych yn gweithio (The Challenging Behaviour Foundation, dim dyddiad). Mae Cheung a Kam (2019) yn cyfleu nad yw rhai ymarferwyr gyda'r hyder wrth weithio gyda rhieni, hyd

oed fod gan agwedd bositif. Mae ymarferwyr hefyd yn cyfleu bod nhw am dderbyn mwy o hyfforddiant ar gyfer rhai mathau o weithgareddau sydd yn cynnwys rhieni.

Yn senario mae'n cyfleu bod dad yn berson swil ac nad yw yn ymgysylltu gyda rhieni arall, felly bydd grwpiau sydd yn cefnogi tadau yn syniad da i dad mynychu. Bydd dad yn cwrdd â thadau sydd efallai yn yr un sefyllfa a chreu perthnasau newydd. Wrth fynychu'r grŵp mae'n darparu sgiliau magu plant iach, teimlad o berthyn ac ymdeimlad cynyddol o rymuso (Newport Academy, 2019). Mae grwpiau cefnogi tadau yn helpu tadau sydd yn teimlo'n ynysedig neu sy'n methu dod o hyd i fodel rôl i ddysgu wrtho. Mae grŵp cymorth yn cysylltu tadau sydd yn mynd trwyddo'r un pethau. Mae'r grwpiau i gyd yn ymwneud â magu plant cadarnhaol a bod y tadau gorau (Galla, 2023). Wrth i dad mynychu'r grŵp bydd yn helpu dad i greu bond gydag Osian, a hybu ei chymhwysedd a hyder yn ei gallu i fagu Osian. Wrth i hyder dad cynyddu bydd dad yn fwy hyderus i gymdeithasu gyda rhieni yn yr ysgol (Heppleston, 2019). Fodd bynnag yn ôl The Lancet Public Health (2018) oherwydd bod mwy o famau sydd yn sengl na thadau mae cymorth cymdeithasol ar gael yn fwy cyffredin i famau sengl. Bydd y grwpiau hyn hefyd yn helpu Osian i gymysgu gyda phlant arall tu fas o ysgol.

Mae grwpiau cymorth i rieni yn darparu cymorth anffurfiol ar y cyd a chyfleoedd i drafod heriau a strategaethau magu plant. Dod o hyd i adnoddau ac offer ar gyfer cynnal grwpiau cymorth i rieni a gwybodaeth am raglenni cymorth cenedlaethol i rieni (Child Welfare Information Gateway, dim dyddiad). Yn ôl Masters (dim dyddiad) Mae grwpiau cymorth i rieni yn hybu gallu rhieni i gefnogi eu plant, sy'n codi cyflawniad. Gallent helpu i ddatrys problemau cyn iddynt fynd yn rhy bell. Maen nhw'n ffordd gadarnhaol o helpu rhieni i gydnabod bod anghenion eu plant yn cael eu hystyried. Wrth i dad mynychu'r grwpiau cymorth rhieni. Wrth i dad mynychu'r grŵp bydd yn cwrdd â rhieni o'r gymuned leol a rhannau profiadau unigol, a bydd rhieni eraill yn deall eu sefyllfa. Bydd rhai rhieni yn agored am eu pryderon ac archwilio ffyrdd posibl i symud ymlaen (Young Minds, dim dyddiad).

Felly i gloi, mae gan ymarferwyr llawer o gyfle i sicrhau arweiniad cynhwysol yn y senario. Yn y senario mae ymarferwyr yn sicrhau bod Osian a'i thad yn teimlo eu bod yn perthyn yn yr amgylchedd ysgol a hefyd yn y gymuned ac nad yw yn teimlo ei fod yn wahanol i deuluoedd arall a bod neb yn eu barnu. Fodd bynnag mae'n hanfodol

bod ymarferwyr yn ymwybodol o ba sgiliau sydd eu hangen i ddarparu arweiniad cynhwysol.

Rhan 2

Nod rhan 2 o'r aseiniad yw gwerthuso'n feirniadol un polisi yng Nghymru a allai honni ei fod yn galluogi arweinyddiaeth gynhwysol mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar

Mae polisïau yn lleoliadau blynyddoedd cynnar yn rhywbeth sydd yn darparu canllawiau ar y ffordd dylai ymarferwyr blynyddoedd cynnar gweithio er mwyn sicrhau bod y plant o dan ofal nhw yn ddiogel a hefyd yn derbyn y safonau gorau o ofal ac addysg. Mae polisïau yn cyfleu'r hyn y gellir ac na ellir ei wneud mewn lleoliad a hefyd yn datgan ei safonau a'i gredoau (City Guilds, 2019). Yn ôl Baldcock, Fitzgerald a Kay (2013) mae polisïau yn bwysig oherwydd, mae rhaid meddwl beth maent yn gwneud a sut yr ydym am ei gyflawni. Mae angen plant cael mwy na brwdfrydedd ni. Mae angen i ymarferwyr meddwl am beth maent yn gwneud a dyna beth mae'r term 'polisi' yn ei olygu.

Mae Polisi Macro yn bolisi sydd yn effeithio'r wlad i gyd. Mae'n ymwneud ag amodau ariannol, cyllidol, masnach a chyfraddau cyfnewid yn ogystal â thwf economaidd, chwyddiant a lefelau cyflogaeth genedlaethol. Mae polisi Micro yw rhywbeth sydd ond yn effeithio ar sectorau, ardaloedd, cymdogaethau neu grwpiau penodol (GreenFacts, 2022). Yn ôl Bonetti a Brown (2018) mae elfennau macro yn benodol i bob system addysg. Enghreifftiau o elfennau macro yw polisïau llywodraeth, cwricwlwm a hefyd polisïau a gweithdrefnau. Yn ôl Ferdman (2021) mae'r fframwaith dadansoddol aml-lefel yn cyfleu haenau gwahanol yn dechrau gyda lefel macro a gweithio lawr i lefel micro. Mae polisïau sydd yn dod o lefel macro yn bolisïau sydd yn cael eu hysgrifennu gan sefydliadau fel y Llywodraeth. Mae polisïau sydd ar y lefel micro yn bolisïau o fewn y gweithle, sydd yn ddatganiadau o fel mae'r arweinwr y gweithle angen i'r gweithle gweithio, a dylai'r polisïau dylanwadu ar fel mae gweithwyr yn meddwl ac ymddwyn.

Y polisi/arweiniad sydd yn cael ei drafod yn ystod rhan 2 o'r aseiniad yw'r Cwricwlwm newydd Cymru (Welsh Government, 2022a). Yn ôl Welsh Government (2021) nod yr arweiniad Cwricwlwm newydd i Gymru yw helpu pob ysgol i ddatblygu cwricwlwm ei hun, gan alluogi eu dysgwyr i ddatblygu tuag at bedwar diben y cwricwlwm. Mae hwn yw'r pwynt cychwyn ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng

Nghymru. Wrth gyflawni'r pedwar diben, mae'n gosod disgwyliadau uchel i bawb, yn mynd i'r afael ag cam wybodaeth ac anwybodaeth, yn annog ymgysylltu beirniadol a dinesig, ac yn hyrwyddo llesiant unigol a chenedlaethol.

Yn ôl Welsh Government (2020) i sicrhau bod y cwricwlwm yn llwyddo roedd yn mynnu arweinyddiaeth bersonol a phroffesiynol cryf ym mhob ystafell athrawon ac ystafell dosbarth. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio yn agos gyda rhandaliad i barhau i weithredu a dyfeisio system addysg sydd yn gynhwysol a ragweithiol. Wrth i Lywodraeth Cymru barhau i godi safonau i bawb, bydd pobl ifanc a phlant sydd yn agored i niwed, gydag anghenion ychwanegol neu o dan anfantais yn cael ei flaenoriaethu. Wrth ddilyn y system yma bydd yn helpu nodi meysydd o anghydraddoldeb ac adfyd a thargedu adnoddau i ddatblygu a chyflwyno rhaglenni i ddarganfod y prif achosion anghydraddoldeb a sicrhau bod y rhai sydd angen cymorth yn cael y cymorth sydd ei angen. Yn ôl Welsh Government (2022b) mae'r cwricwlwm newydd yn hybu ffyrdd newydd o hyfforddi a chefnogi staff a chymorth i ysgolion i sicrhau gwellant. Mae'r cwricwlwm newydd yn paratoi plant a phobl ifanc i ddatblygu safonau rhifedd a llythrennedd uwch, ac i ddod yn fwy cymwys yn ddwyieithog a digidol, ac i fod yn ddinasyddion hyderus, galluog a thosturiol.

Yn ôl Edwards (2021) mae'r cwricwlwm newydd Yng Nghymru yn gweithio yn dda, oherwydd mae arweinwyr yn dangos ymrwymiad clir a dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae arweinwyr uwch yn annog staff i gymryd risgiau ystyriol i wella cynllunio a dylunio cwricwlwm. Mae hyn yn gweithio yn ardderchog o dda ac yn hyblyg yn y dull gweithredu ar draws disgyblaethau neu feysydd dysgu a phrofiad. Mae'n hefyd cyfleu bod ysgolion yn canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, gan ddatblygu dealltwriaeth gyffredin a sut i addysgu yn gynhwysol. Fodd bynnag mae Edwards (2021) hefyd yn cyfleu'r rhwystrau o weithredu'r cwricwlwm newydd a phethau y mae rhaid ystyried i sicrhau bod y cwricwlwm yn llwyddo. Y rhwystrau yw dod o hyd i amser i feddwl yn strategol, datblygu dealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng addysgeg a'r cwricwlwm, a datblygu gwaith partneriaeth gryfach rhwng ysgolion. Mae Wightwick (2022) yn dweud bod y cwricwlwm hen yn seiliedig ar wybodaeth ac mae'r cwricwlwm newydd mwy rhyngweithiol. Mae'r cwricwlwm newydd yn strwythur sy'n newid diwylliant ac ethos yn ysgolion. Mae'r plant nawr y teimlo eu bod gyda gwell berthynas gyda'i ymarferwyr ac athrawon a bod nhw'n fwy rhyngweithiol gyda'u ddysgu.

Mae adroddiad OECD (2017) yn cyfleu dylai Cymru barhau gyda'i ymdrechion i ddiwygio'r cwricwlwm a chodi safonau addysgu, bydd hyn yn gwella ansawdd a thegwch yn systemau ysgolion. Mae'n hefyd yn dweud bod cynnal ymrwymiad, dyfnhau buddsoddiadau mewn meysydd polisi allweddol a chryfhau'r broses weithredu i wireddu uchelgeisiau'r wlad ar gyfer addysg a chymdeithas yn y tymor hir. Y ffocws am ddiwygiadau parhaus yw datblygu proffesiwn addysgu o ansawdd uchel, sicrhau tegwch mewn cyfleoedd dysgu a llesiant plant, gwneud arweinyddiaeth yn ysgogydd allweddol ar gyfer diwygio addysg, a symud tuag at system newydd o asesu. Mae Woods *et al* (2021) yn cytuno bod pwyslais uchel ar ymddiriedaeth broffesiynol ac yn gofyn bod athrawon dosbarth, arweinwyr ysgol ac addysg arall gweithwyr proffesiynol yn hyderus ac yn wybodus ac yn barod i gydymffurfio a'r egwyddorion ac ymarferoldeb newid.

Felly i gloi, mae'r cwricwlwm newydd Yng Nghymru yn gynhwysol, ond mae mynd i gymryd bach o amser i ymarferwyr ac athrawon dod yn gyfarwydd gyda'r cwricwlwm newydd. Maw hefyd angen yr hyfforddiant cywir a bod pawb yn ddeall a chyflwyno yn ffordd iawn, bydd hyn yn sicrhau bod y cwricwlwm yn llwyddo.

Rhan 3

Nod y blog hwn yw hyrwyddo rôl tadau gyda'i phlant ifanc a hybu arweinyddiaeth gynhwysol. Bydd y blog hwn yn trafod ac amlygu fel mae tadau a ffigyrau tadau yn chwarae rhan fawr yn ddatblygiad eu plant a hefyd fel gall ymarferwyr annog cyfranogiad ac ymgysylltiad.

Yn ôl Alemann, Garg, a Vlahovicova (2020) mae gofalwyr yw'r darparwyr pwysicaf am feithrin gofal i blant. Mae menywod yn hanesyddol wedi cymryd y rôl o ddarparu gofal i blant. Mae Parenta (2022) hefyd yn cyfleu bod menywod wedi cymryd y rôl ar gyfer gofal plant yn hanesyddol. Mae pobl fel arfer yn cysylltu magwraeth plant gyda mamau ac yn anaml yn ystyried rôl y tadau i chwarae rhan bwysig yn ddatblygiad blynyddoedd cynnar. Mae cael tadau sydd yn cymryd rhan yn fagwraeth eu plant yn cynyddu parodrwydd academiaidd plant (Rainforest Learning Centre, dim dyddiad). Mae ymglymiad tadau yn y blynyddoedd cynnar yn gwella galluedd gwybyddol a dysgu plentyn. Hyd yn oed pryd mae'r plentyn yn cael ei eni, mae presenoldeb tad yn gallu helpu plentyn i fod yn fwy imiwn i straen a hefyd paratoi ar gyfer ysgol yn gyffredinol (Rainforest Learning Centre, dim dyddiad).

Yn ôl Ancell, Bruns, a Chitiyo (2018) mae ymglymiad tad dim yn unig yn fuddiol i'r plentyn ond hefyd yn fuddiol i'r tadau eu hunain. Mae tadau sydd yn fywydau eu plant yn teimlo'n fwy hunan hyderus ac effeithiol fel rhieni. Mae tadau yn teimlo bod yn rhiant yn fwy boddhaol a bod yn cael eu hannog i gymryd rhan yn fwy yn fywydau eu plant. Yn ogystal mae tadau sy'n ymwneud a bywydau eu plant yn debygol o ddangos lefelau uwch o aeddfedrwydd, ac yn fwy tebygol o gymryd rhan yn y gymuned a chymryd rolau arweiniol yn y gymuned. Yn ôl Parenta (2022) yn ystod Covid-19 mae perthynas tadau a phlant wedi cynyddu. Yn ystod 2020 roedd 78% o dadau yn treulio amser gyda'i phlant a 68% yn gwario mwy o amser nag arfer yn helpu gyda gwaith cartref ac addysg gartref ac roedd dros hanner yn teimlo'n fwy parod i gefnogi gydag addysg a dysgu eu plant.

Yn ôl Kahn (dim dyddiad) mae tadau yn gwario mwy o amser yn gofalu am eu plant yn amgylchedd y cartref. Mae ymarferwyr yn cyfleu eu bod yn gweld tadau yn gollwng neu gasglu eu plant yn fwy aml, ond maen nhw'n dal yn amharod i gymryd rhan mewn lleoliadau addysg, yn enwedig lleoliadau sydd gyda phlant ifanc, sydd yn draddodiadol lleoedd llawn mamau a staff benywaidd. Mae ymarferwyr hefyd yn cyfleu bod llawer o dadau yn hapus i adael cysylltiad hyn at famau eu plant. Er yr ymdrechion i gynnwys nhw yn fwy yn y gwasanaethau hyn. Mae Anderson *et al* (2015) yn cyfleu mae angen strategaethau effeithiol ar ymarferwyr i fanteisio ar ddiddordebau tadau. Mae nodi a chreu strategaethau ymgysylltu sydd yn effeithiol yn gallu cyflwyno heriau unigryw, oherwydd mae tadau gyda pherthynas fwy amrywiol gyda'i phlant o gymharu â mamau.

Rhestr Cyfeirnod

Action For Children. (dim dyddiad) *How can I teach my child social skills?* Ar gel o: <https://parents.actionforchildren.org.uk/stages-development/social-emotional-development/child-social-skills/>. (Darllenwyd: 19 o Fehefin 2023).

Agbenyega, J.S. a Klibthong, S. (2022) 'Giving voice: inclusive early childhood teachers' perspectives about their school leaders' leadership practices', *International*

journal of leadership in education, pp. 1–17.
<https://doi.org/10.1080/13603124.2022.2052761>.

Alemann, C., Garg, A. a Vlahovicova, K. (2020) *The role of fathers in parenting for gender equality*. Ar gael o: <https://promundoglobal.org/wp-content/uploads/2020/08/Parenting-Education-the-role-of-fathers-paper-060520-2-col.pdf>. (Darllenwyd: 15 o Fehefin 2023).

Ancell, K.S., Bruns, D.A. a Chitiyo, J. (2018) 'The Importance of Father Involvement in Early Childhood Programs', *Young exceptional children*, 21(1), pp. 22–33.
<https://doi.org/10.1177/1096250615621355>.

Anderson, S. *et al.* (2015) "Helping us find our own selves": exploring father-role construction and early childhood programme engagement', *Early child development and care*, 185(3), pp. 360–376. <https://doi.org/10.1080/03004430.2014.924112>.

Baldcock, P. Fitzgerald, D. a Kay, J. (2013) *Understanding Early Years Provision*. London: Sage.

BERGER, L.M. a LANGTON, C.E. (2011) 'Young Disadvantaged Men as Fathers', *The Annals of the American Academy of Political and Social Science*, 635(1), pp. 56–75. <https://doi.org/10.1177/0002716210393648>.

Betz, S. (2023) *Inclusive Leadership: Why It's Important and How to Improve It*. Ar gael o: <https://builtin.com/diversity-inclusion/inclusive-leadership>. (Darllenwyd: 3 o Fehefin 2023).

Bonetti, S. a Brown, K. (2018) *Structural elements of quality early years provision: A review of the evidence*. Ar gael o: <https://epi.org.uk/wp->

[content/uploads/2018/08/Early-years-structural-quality-review_EPI.pdf](#). (Darllenwyd: 22 o Fehefin 2023).

Bower, K. (2021) *Supporting Single Parents*. Ar gael o: <https://teachersfirst.com/blog/2021/04/supporting-single-parents/>. (Darllenwyd: 18 o Fehefin 2023).

Casey, A. (2022) *Child Well-Being in Single-Parent Families*. Ar gael o: <https://www.aecf.org/blog/child-well-being-in-single-parent-families#:~:text=Potential%20Emotional%20and%20Behavioral%20Impact,peers%20raised%20by%20married%20parents>. (Darllenwyd: 20 o Fehefin 2023).

Center for creative leadership. (2023) *Inclusive Leadership: Steps to Take to Get It Right*. Ar gael o: <https://www.ccl.org/articles/leading-effectively-articles/when-inclusive-leadership-goes-wrong-and-how-to-get-it-right/#:~:text=But%20what%20exactly%20is%20inclusive,collaborate%20more%20effectively%20with%20others>. (Darllenwyd: 2 o Fehefin 2023).

Cheung, S.K. a Kam, C.S. (2019) 'Hong Kong pre-service early childhood teachers' attitudes towards parental involvement and the role of their family relationship quality', *Journal of education for teaching*, 45(4), pp. 417–433. <https://doi.org/10.1080/02607476.2019.1639261>.

Childhood Education International. (2021) *Inclusive Leadership in Education*. Ar gael o: <https://ceinternational1892.org/wp-content/uploads/2021/07/InclusiveLeadershipBriefJuly2021.pdf>. (Darllenwyd: 18 o Fehefin 2023).

Child Welfare Information Gateway. (dim dyddiad) *Parent Support Groups*. Ar gael o: <https://www.childwelfare.gov/topics/preventing/prevention-programs/parent-support->

[groups/#:~:text=Parent%20support%20groups%20provide%20informal,on%20national%20parent%20support%20programs.](#) (Darllenwyd: 22 o Fehefin 2023).

City Guilds. (2019) *Policies and procedures for early years and childcare practice*. Ar gael o: http://resource.download.wjec.co.uk.s3-eu-west-1.amazonaws.com/vtc/2018-19/hsc18-19_3-3/_multi-lang/unit01/04-policies-and-procedures-and-how-to-find-out.html#:~:text=Policies%20provide%20guidelines%20on%20the,state%20its%20standards%20and%20beliefs. (Darllenwyd: 3 o Fehefin 2023).

Cowley, S. (dim dyddiad) *How to Help Shy Children Develop Their Social Skills*. Ar gael o: <https://www.teachearlyyears.com/positive-relationships/view/best-behaviour-social-skills>. (Darllenwyd: 19 o Fehefin 2023).

Edwards, A. (2021) *Building on strengths and removing barriers – preparing for the Curriculum for Wales*. Ar gael o: <https://www.estyn.gov.wales/blog/building-strengths-and-removing-barriers-preparing-curriculum-wales>. (Darllenwyd: 22 o Fehefin 2023).

Estyn. (2020) *Building an ethos based on mutual respect*. Ar gael o: <https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/building-ethos-based-mutual-respect>. (Darllenwyd: 20 o Fehefin 2023).

Ferdman, B.M., Prime, J. a Riggio, R.E. (2020) *Inclusive leadership : transforming diverse lives, workplaces, and societies*. New York: Routledge.

Galla, S. (2023) *FATHER SUPPORT GROUPS – A GUIDE TO SUPPORT GROUPS FOR DADS*. Ar gael o: <https://mensgroup.com/father-support-groups/>. (Darllenwyd: 18 o Fehefin 2023).

Gibbs, A. (2021) *5 Effective Tips to Encourage Child's Social Play and Friendship Skills*. Ar gael o: <https://voiceofplay.org/blog/2021/08/30/5-effective-tips-to-encourage-childs-social-play-and-friendship-skills/>. (Darllenwyd: 20 o Fehefin 2023).

Gov.uk. (2023) *Social Work Week: How to become a child and family social worker*. Ar gael o: <https://educationhub.blog.gov.uk/2023/03/21/social-work-week-how-to-become-a-child-and-family-social-worker/>. (Darllenwyd: 18 o Fehefin 2023).

Gov.uk. (dim dyddiad) *Working in partnership with parents and carers*. Ar gael o: <https://help-for-early-years-providers.education.gov.uk/get-help-to-improve-your-practice/working-in-partnership-with-parents-and-carers>. (Darllenwyd: 19 o Fehefin 2023).

GreenFacts. (2022) *Macro policy*. Ar gael o: <https://www.greenfacts.org/glossary/mno/macro-policy.htm#:~:text=Macro%20Policy%20is%20policy%20which,inflation%20and%20national%20employment%20levels>. (Darllenwyd: 16 o Fehefin 2023).

Heppleston, S. (2019) *Why father's groups are important for dads*. Ar gael o: <https://www.houseofwellness.com.au/lifestyle/parenting/fathers-groups-important-groups-for-dads#:~:text=Benefits%20include%20helping%20dads%20bond,in%20their%20ability%20to%20parent>. (Darllenwyd: 18 o Fehefin 2023).

Inness, I. (2015) *The role of childcare professionals in supporting mental health and wellbeing in young people: a literature review*. Ar gael o: https://www.pacey.org.uk/Pacey/media/Website-files/PACEY%20general/Emotional-wellbeing_literaturereview_Dec2015.pdf. (Darllenwyd: 18 o Fehefin 2023).

Kahn, T. (dim dyddiad) *Engaging with Fathers*. Ar gael o:

<https://www.teachearlyyears.com/positive-relationships/view/engaging-with-fathers>.

(Darllenwyd: 15 o Fehefin 2023).

Lee, C.M. a Bax, K.A. (2000) 'Children's reactions to parental separation and divorce', *Paediatrics & child health*, 5(4), pp. 217–218.

<https://doi.org/10.1093/pch/5.4.217>.

Masters, K. (dim dyddiad) *How Parent Support Groups Can Help Children*. Ar gael o:

<https://www.teachwire.net/news/how-parent-support-groups-can-help-children/#:~:text='Parent%20support%20groups%20boost%20the,are%20being%20taken%20into%20account>. (Darllenwyd: 22 o Fehefin 2023).

Mullins, L. (2021) *Will social workers take away your children?* Ar gael o:

<https://www.rte.ie/brainstorm/2021/0628/1231750-ireland-social-workers-tusla-children/>. (Darllenwyd: 18 o Fehefin 2023).

Newport Academy. (2019) *5 Reasons Why Parenting Support Groups Are So Important*. Ar gael o: [https://www.newportacademy.com/resources/restoring-families/parenting-support-](https://www.newportacademy.com/resources/restoring-families/parenting-support-groups/#:~:text=Research%20shows%20that%20support%20groups,or%20other%20mental%20health%20issues)

[groups/#:~:text=Research%20shows%20that%20support%20groups,or%20other%20mental%20health%20issues](https://www.newportacademy.com/resources/restoring-families/parenting-support-groups/#:~:text=Research%20shows%20that%20support%20groups,or%20other%20mental%20health%20issues). (Darllenwyd: 18 o Fehefin 2023).

NSPCC. (2023) *Multi-agency working*. Ar gael o: [https://learning.nspcc.org.uk/child-](https://learning.nspcc.org.uk/child-protection-system/multi-agency-working-child-protection#heading-top)

[protection-system/multi-agency-working-child-protection#heading-top](https://learning.nspcc.org.uk/child-protection-system/multi-agency-working-child-protection#heading-top). (Darllenwyd: 18 o Fehefin 2023).

NSPCC. (dim dyddiad) *Separation and divorce*. Ar gael o:

<https://www.nspcc.org.uk/keeping-children-safe/support-for-parents/separation-and-divorce/>. (Darllenwyd: 20 o Fehefin 2023).

Nutbrown, C. (dim dyddiad) *Inclusion in Early Years – What is it?*. Ar gael o: <https://www.teachearlyyears.com/a-unique-child/view/inclusion-in-early-years-settings#:~:text=To%20be%20inclusive%20means%20to,met%20and%20they%20can%20contribute>. (Darllenwyd: 18 o Fehefin 2023).

OECD. (2017) *Wales should continue reforms to boost quality and equity of school system*. Ar gael o: <https://www.oecd.org/education/wales-should-continue-reforms-to-boost-quality-and-equity-of-school-system.htm#:~:text=28%2F02%2F2017%20%20Wales%20should%20continue%20its%20efforts%20to,school%20system%2C%20according%20to%20a%20new%20OECD%20report>. (Darllenwyd: 22 o Fehefin 2023).

Parenta. (2022) *The significant role of fathers in the early years*. Ar gael o: <https://www.parenta.com/2022/05/01/the-significant-role-of-fathers-in-the-early-years/>. (Darllenwyd: 15 o Fehefin 2023).

Patel, O. (2018) *22 Children's Books That Show All Families Are Different*. Ar gael o: <https://theeverymom.com/22-childrens-books-that-show-all-families-are-different/>. (Darllenwyd: 18 o Fehefin 2023).

Pennsylvanais's Promise for Children. (dim dyddiad) *The Importance of Independent Play*. Ar gael o: <https://papromiseforchildren.com/featured-articles/the-importance-of-independent-play/#:~:text=While%20interaction%20with%20adults%20and,and%20teach%20patience%20and%20resilience>. (Darllenwyd: 20 o Fehefin 2023).

Rainforest Learning Centre. (dim dyddiad) *The power of father involvement in early childhood development*. Ar gael o: <https://rainforestlearningcentre.ca/power-father->

[involvement-early-childhood-development/#:~:text=Father%20involvement%20in%20early%20childhood%20development%20improves%20a%20child's%20cognitive,prepared%20for%20school%20in%20general. \(Darllenwyd: 15 o Fehefin 2023\).](#)

Royal College of Psychiatrists. (2018) *Divorce or separation for parents and carers*. Ar gael o: <https://www.rcpsych.ac.uk/mental-health/parents-and-young-people/information-for-parents-and-carers/divorce-or-separation-for-parents>. (Darllenwyd: 21 o Fehefin 2023).

The Challenging Behaviour Foundation. (dim dyddiad) *Working in partnership*. Ar gael o: <https://www.challengingbehaviour.org.uk/what-we-do/sharing-best-practice/working-in-partnership/>. (Darllenwyd: 19 o Fehefin 2023).

The Lancet Public Health. (2018) 'Single fathers: neglected, growing, and important', The Lancet. Public health, 3(3), pp. e100–e100. [https://doi.org/10.1016/S2468-2667\(18\)30032-X](https://doi.org/10.1016/S2468-2667(18)30032-X).

UNICEF. (dim dyddiad) *A summary of the UN Convention on the Rights of the Child*. Ar gael o: [https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2019/10/UNCRC_summary-1_1.pdf?_ad=sd=www.unicef.org.uk.1636894905449&_ad_ca=so%3DLive%26me%3Dorganic%26ca%3D\(not%2520set\)%26co%3D\(not%2520set\)%26ke%3D\(not%2520set\).1636894905449&_ad_cw=1636894900203.1636894905449&_ad_id=941af5fc-f1ea-40ca-b363-8a955b747b8f.1602085649.8.1636894900.1634639623.229581f4-d1ad-4935-8eda-efb888baa9d9.1636894905449&_ga=2.123362766.455716028.1636894900-1400654250.1584200325](https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2019/10/UNCRC_summary-1_1.pdf?_ad=sd=www.unicef.org.uk.1636894905449&_ad_ca=so%3DLive%26me%3Dorganic%26ca%3D(not%2520set)%26co%3D(not%2520set)%26ke%3D(not%2520set).1636894905449&_ad_cw=1636894900203.1636894905449&_ad_id=941af5fc-f1ea-40ca-b363-8a955b747b8f.1602085649.8.1636894900.1634639623.229581f4-d1ad-4935-8eda-efb888baa9d9.1636894905449&_ga=2.123362766.455716028.1636894900-1400654250.1584200325). (Darllenwyd: 18 o Fehefin 2023).

Weed, K. a Nicholson, J.S. (2015) 'Differential social evaluation of pregnant teens, teen mothers and teen fathers by university students', International journal of

adolescence and youth, 20(1), pp. 1–16.
<https://doi.org/10.1080/02673843.2014.963630>.

Welsh Government. (2020) *Education in Wales: Our national mission*. Ar gael o:
<https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2020-10/education-in-Wales-our-national-mission-update-october-2020.pdf>. (Darllenwyd: 22 o Fehefin 2023).

Welsh Government. (2021) *Introduction to Curriculum for Wales guidance*. Ar gael o:
<https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/introduction>. (Darllenwyd: 22 o Fehefin 2023).

Welsh Government. (2022a) *Curriculum for Wales*. Ar gael o:
<https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/>. (Darllenwyd: 22 o Fehefin 2023).

Welsh Government. (2022b) *Education is changing*. Ar gael o:
<https://www.gov.wales/education-changing>. (Darllenwyd: 22 o Fehefin 2023).

Wightwick, A. (2022) *What teachers in Wales make of the controversial changes set to completely change how and what pupils learn*. Ar gael o:
<https://www.walesonline.co.uk/news/education/wales-education-news-exams-curriculum-23769446>. (Darllenwyd: 22 o Fehefin 2023).

Woods, P.A. et al. (2021) 'Constructions and purposes of school leadership in the UK', *School leadership & management*, 41(1-2), pp. 152–170.
<https://doi.org/10.1080/13632434.2020.1859999>.

Young Minds. (dim dyddiad) *How to set up a parent support group*. Ar gael o:
<https://www.youngminds.org.uk/parent/how-to-set-up-a-parent-support-group/#:~:text=By%20setting%20up%20a%20group,parents%20who%20may%20feel%20unsupported>. (Darllenwyd: 22 o Fehefin 2023).

